# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

## YN HOSBIS TŶ'R EOS

**Diolch yn fawr am ddangos diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Hosbis TŶ'r Eos.**

Mae gwirfoddolwyr yn rhan annatod o dîm yr hosbis ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynllunio i roi cipolwg i chi ar y cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol sydd ar gael gennym.



Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

## Derbynnydd Gwirfoddol
Yn y dderbynfa, chi yw 'wyneb yr hosbis' a'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein holl ymwelwyr. Gan weithio gydag aelod o staff, bydd angen i chi fod yn gyfrinachol, meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, y gallu i gydymdeimlo â phobl a bod yn gwrtais ar y ffôn.

## Cyfrifydd Arian Parod
Mae cyfrif rhoddion arian parod a darparu cymorth gweinyddol yn sicrhau ein bod yn diolch yn brydlon a phriodol i'n cyfrannwyr. Yn bennaf, byddwch yn cyfrif ac yn cofnodi rhoddion arian parod a dderbynnir, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel. Darperir hyfforddiant llawn.

## Gweinyddiaeth
Mae llawer o adrannau ymhob rhan o'r hosbis yn elwa o gefnogaeth weinyddol. Gallai'r dyletswyddau gynnwys cofnodi data, sganio a llungopïo dogfennau, delio â'r post, ateb y ffôn a chroesawu ymwelwyr i'r swyddfa.

## Gyrwyr
Rydym bob amser yn chwilio am yrwyr sydd naill ai'n barod i yrru eu cerbydau eu hunain neu gerbydau'r hosbis i gefnogi digwyddiadau, dosbarthu nwyddau i'n cwsmeriaid ar-lein, casglu tuniau arian, helpu gyda siopau anrhegion dros dro a danfon prydau o Gaffi Cwtch. Mae'r rôl hon yn gwbl hyblyg ac nid oes angen cynnig ymrwymiad wythnosol rheolaidd bob amser. Os oes gennych drwydded yrru lân a'ch bod rhwng 25 ac 80 oed, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

## Gwirfoddolwr Siop Anrhegion
Byddwch yn helpu i gynhyrchu arian y mae mawr ei angen ar yr un pryd â darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Fel rhan o'r tîm, byddwch yn creu arddangosfeydd sy'n ysbrydoledig yn weledol yn siop anrhegion yr hosbis sydd wedi'i lleoli ym mhrif dderbynfa'r hosbis. Gallwch hefyd helpu mewn siopau dros dro yn y gymuned i helpu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r hosbis.

## Gwirfoddolwr Codi Arian
Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o ymgyfarwyddo! Os hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith o godi'r 4 miliwn o bunnoedd sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau'r hosbis, byddai'r tîm codi arian yn hapus iawn petaech yn ymuno â nhw. Gall y rôl hon fod yn weithredol iawn neu mor syml ag y dymunwch – gallech stiwardio yn un o'n digwyddiadau awyr agored, bod yn dywysydd cerdded neu gasglu arian mewn bwced - chi sydd i ddewis! Dyma'r rôl berffaith os nad ydych chi'n gallu ymrwymo i shifft wythnosol.

## Gwirfoddolwr Tîm y Loteri
Byddwch yn perthyn i dîm bach sy'n gyfrifol am un o brif ffrydiau incwm yr hosbis. Gan fod yn gyfathrebwr gwych, byddwch yn codi ymwybyddiaeth o'r loteri mewn digwyddiadau ac yn annog chwaraewyr newydd i ymuno. Rhoddir hyfforddiant llawn ar gyfer y rôl hon.

## Gwirfoddolwr Caffi
Os ydych chi'n mwynhau cynnig gwasanaeth gwych i gwsmeriaid a chreu argraff barhaol, yna bydd bod yn aelod o dîm Caffi Cwtch neu Regent Street yn ddelfrydol i chi. Byddwch yn derbyn hyfforddiant ar ein bwydlen a sut i baratoi diodydd, cyfarfod a chyfarch, gweini ar fyrddau a bod yn hoffus!

## Cegin
Mae'r rôl hon yn gweithredu dan gyfarwyddyd ein cogyddion a gall fod mor gymhleth neu mor syml ag y dymunwch. Dyma rai o'r dyletswyddau sydd ynghlwm â'r rôl: paratoi cynhwysion amrwd ar gyfer prydau bwyd, pobi cacennau, gwneud diodydd a golchi llestri. Rhoddir hyfforddiant llawn ar gyfer y rôl hon.

## Garddio
Os gallwch chi wahaniaethu rhwng planhigyn o chwyn, ac os hoffech chi helpu i greu a chynnal ein gerddi hardd, mae'r rôl hon yn ddelfrydol i chi. Gan fod yn rhan o dîm o'r un anian, sy'n cwrdd ddydd Mawrth a dydd Iau, byddwch yn helpu i ddylunio a phlannu ein gerddi fel eu bod yn edrych ar eu gorau, beth bynnag fo'r tymor.

# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

## TŶ'R EOS

**Nid yw pob rôl wedi'i rhestru, ac os oes gennych chi gymhwyster proffesiynol neu sgil arall a allai fod o fudd i'r hosbis yn eich barn chi, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Gwirfoddoli ar 01978 316800 neu anfon neges e-bost at volunteering@nightingalehouse.co.uk .**

O ran ymrwymiad, rydym fel arfer yn chwilio am shifft pedair awr ar unrhyw ddiwrnod penodol, unwaith yr wythnos, ond mae hyn yn hyblyg a gellir trafod eich argaeledd yn y cyfweliad.

**Mae meini prawf recriwtio hanfodol eraill yn cynnwys:**

- **Mae pob rôl yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).**
- **Dau eirda; gall y rhain fod yn eirda proffesiynol neu eirda cymeriad.**





***"Defnyddio fy amser hamdden yn dda drwy ddal i fyny â gwirfoddolwyr eraill sydd wedi dod yn ffrindiau da."***

- Gwirfoddolwr Hosbis

**I gael mwy o wybodaeth am y rolau gwirfoddoli, cysylltwch â:**

Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

**01978 316800**
**NIGHTINGALEHOUSE.CO.UK**